Pennaeth Addysg
Head of Education
Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk

26 Mawrth 2014

At rieni disgyblion Ysgol Brynrefail

Annwyl rieni

Afraid i mi nodi i chi cymaint yw ein pryderon yn Yr Awdurdod am yr holl 'gyhoeddusrwydd' a dderbynia Ysgol Brynrefail ar hyn o bryd. Gwn mai dyna'n union a feddyliwch chithau fel rhieni'r disgyblion sydd am weld yr ysgol yn llwyddo ymhob agwedd o'i gwaith.

Rhag i neb ohonom golli golwg ar graidd yr hyn a gyflawnir yn yr ysgol caniatewch i mi ar ran pawb ohonom gyfleu gair o werthfawrogiad i'r holl staff am raen eu gwaith a'u gofal dros y disgyblion. Mae'n rhy hawdd o lawer i sylwebwyr ddarlunio sefyllfa llawn trafferth heb aros am funud i feddwl am yr hyn a gyflawna'r ysgol mewn gwirionedd.

Fel Awdurdod, yr ydym wrthi yn ceisio dod â pheth o'r hyn sydd angen i ni ei gyflawni i ben cyn gynted ag y medrwn gan fawr obeithio y bydd hynny ynddo'i hun yn fodd i greu'r sefydlogrwydd a'r undod pwrpas i holl waith yr ysgol y dymunwn i gyd ei weld. I'r diben hwn, ein bwriad yw cynnal cyfarfod 'dychwelyd i waith' efo Mr Eifion Jones ddechrau'r wythnos nesaf.

Ar hyn o bryd, y mae Mr Arwyn Williams yn gweithredu fel Pennaeth Mewn Gofal yn yr ysgol a hynny gyda chefnogaeth Yr Awdurdod a'r Llywodraethwyr.

Yn gywir

Dewi R Jones

Dewi R Jones
Pennaeth Addysg

Copi: Staff a Llywodraethwyr

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk